



Adroddiad Arolygu

Affinity Homecare Aberystwyth

**26 Heol y Bont
Aberystwyth
SY23 1QB**

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/07/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Affinity Homecare Aberystwyth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Affinity Homecare Group Ltd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	[Nodi â Llaw] 14 Tachwedd 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae Affinity Homecare yn darparu cymorth hirdymor i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Ar y cyfan, mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a gânt gan Affinity. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a bod y staff yn gwrandao arnynt ac maent yn hapus i godi unrhyw bryderon â'r rheolwr.

Caiff y bobl ofal gan dîm bach sy'n adnabod y bobl yn dda. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i barhau mor annibynnol â phosibl. Mae angen adolygu'r cynlluniau personol gan gynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn y broses er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau ac i gynnal hawliau unigolion.

Ar y cyfan, mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr sydd ar gael bob amser ac yn ymateb i unrhyw bryderon. Mae'r staff gofal o'r farn eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Caiff y staff hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol ychwanegol pan fo angen yn unol ag anghenion gofal a chymorth y bobl.

Mae arweinyddiaeth a llywodraethiant amlwg ac effeithiol ar waith ac mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn.

Llesiant

Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal am fod tîm cyson ar waith. Dywedodd un person, *"There is a good team now, I hope things stay the same"*. Mae'r staff yn gwranddo ar y bobl ac maent yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt. Dywedwyd fod y staff gofal yn hyfryd ac yn barod i helpu. Mae'r bobl fel rheol yn cael gofal mewn ffordd bwyllog, ond dywedodd un aelod o'r staff wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei rithro os nad oes digon o staff ar gael a dywedodd un person, *"Sometimes they rush"*.

Mae'r bobl yn cael y cymorth cywir gan fod y cynlluniau gofal yn fanwl ac mae'r adran 'Yr hyn sy'n bwysig i mi' yn rhoi llais i'r bobl ar sut yr hoffent gael gofal. Mae'n hawdd cael gafael ar y rheolwyr ac maent yn ymateb wrth i faterion gael eu codi. Dywedodd un person wrthym, *"They've got much better (with times), since I asked, it shows they listen"*. Byddai cynnal adolygiadau ffurfiol gan gynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn rheolaidd yn cynyddu hawliau'r bobl ymhellach i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r bobl yn profi canlyniadau iechyd cadarnhaol oherwydd bod y staff gofal yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill fel therapyddion galwedigaethol a nyrsys ardal i ddarparu gofal cyson. Mae'r nodiadau dyddiol yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth am y gofal a ddarparwyd. Gall y staff gofal roi gwybod i'r rheolwyr am bryderon sydd ganddynt am iechyd a llesiant unigolion drwy ddefnyddio ap ar eu ffonau ac maent yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt neu fod angen cynnal asesiad. Felly, mae'r bobl yn cael cymorth neu yn cael eu hatgyfeirio yn ôl yr angen. Dengys y cofnodion fod y bobl, y staff a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. Dywedodd un person wrthym, *"Communication is really good"*.

Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed cymaint â phosibl. Mae systemau recriwtio manwl ar waith, sy'n cynnwys cael geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwiriadau Dogfennau Adnabod. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant Diogelu ac maent yn gwybod beth yw'r weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r bobl hefyd yn gwybod â phwy i gysylltu ac ni fyddent yn oedi wrth drafod pryderon â'r rheolwr yn y lle cyntaf. Mae'r polisïau yn glir ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a manylion cyswllt ar gyfer asiantaethau allanol. Mae'r asesiadau risg ar gyfer amgylchedd y cartref yn amddiffyn y staff gofal a'r bobl y maent yn eu cefnogi. Caiff arsylwadau eu cynnal ar y staff gofal gan yr uwch-staff fel rhan o'r broses oruchwylio er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gofal a chymorth o ansawdd da.

Gofal a Chymorth

Ar y cyfan, mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae cysondeb o ran y staff gofal ac felly gall y bobl feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth gyda'r rhai hynny sy'n eu cefnogi. Fodd bynnag, roedd y prinder staff diweddar yn golygu bod rhai o'r bobl wedi cael gofal gan rai nad ydynt yn gyfarwydd iawn â nhw. Dywedodd un person, "*They (care staff) are not perfect but they try their best*" a dywedodd un arall, "*the main carers are brilliant, really lovely, so helpful*". Mae'r rheolwyr yn helpu i gynnal galwadau pan fo angen ac nid yw'r gwasanaeth yn peidio â'u cynnal. Mae'r staff gofal yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser rhwng galwadau ar y cyfan, ond gallant gael eu rhuthro ar brydiau pan mae prinder staff.

Ar y cyfan, mae'r staff gofal a'r bobl yn teimlo bod y broses gyfathrebu'n dda yn y gwasanaeth. Dywedodd un person wrthym, "*They will say if they are running late*" a dywedodd person arall, "*I don't get told if they are going to be early and I need to know*". Mae'r rheolwyr yn darparu'r rota wythnos ymlaen llaw, felly caiff y bobl wybod am newidiadau i'r amseroedd.

Mae'r cynlluniau gofal a chymorth unigol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r adran 'Yr hyn sy'n bwysig i mi' yn sicrhau y gall y bobl nodi eu dewisiadau a sut yr hoffent gael eu cefnogi. Mae angen i'r rheolwyr sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith ar bob ffeil personol. Mae'r staff gofal yn defnyddio ap ar eu ffonau symudol i fewngofnodi ac allgofnodi o gartrefi'r bobl ac yn cwblhau cofnodlyfrau manwl sydd wedi'u hysgrifennu â llaw. Gall y staff gofal ddefnyddio'r ap i gysylltu ag uwch-aelodau o'r staff a rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon a all fod ganddynt. Caiff y cofnodion personol eu storio'n ddiogel mewn swyddfa ddiogel.

Er bod y cynlluniau personol yn cael eu hadolygu os bydd yr anghenion gofal a chymorth yn newid, nid ydynt bob amser yn cael eu hadolygu bob tri mis yn ôl y gofyn. Caiff rhai o'r adolygiadau eu cynnal wyneb yn wyneb ac mae eraill yn cael eu cynnal dros y ffôn ar sail ad hoc, yn ôl y gofyn. Mae hwn yn Faes i'w Wella, a chaiff ei archwilio yn ystod yr arolygiad nesaf. Rydym wedi trafod hyn â'r rheolwr a fydd yn sicrhau bod yr adolygiadau yn cael eu trefnu ymlaen llaw, yn cael eu cynnal bob tri mis ac yn cynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr.

Mae'r bobl yn teimlo ei bod yn hawdd mynd at y rheolwr a'i fod yn hawdd cael gafael arno. Mae'r bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt a'u bod yn gallu trafod unrhyw bryderon a all fod ganddynt. Dywedodd un person, "*The manager always responds really well...things always get done*".

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac yn ymweld yn rheolaidd er mwyn ymgynghori â'r bobl a'r staff. Mae'r adroddiad mwyaf diweddar yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn adolygu a dadansoddi'r wybodaeth a gesglir yn ystod ei ymweliadau er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir.

Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn sicrhau bod y broses o redeg pob gwasanaeth yn drefnus ac maent bob amser ar gael i gefnogi'r staff. Mae system ar ddyletswydd ar waith yn ystod y nosweithiau a'r penwythnosau felly gall y staff gysylltu ag uwch-aelod o'r staff bob amser i gael cyngor neu gymorth. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi, gan ei ddisgrifio fel person hawdd mynd ato. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, *"They always get back to me no matter what time of day it is"*.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod proses recriwtio gadarn ar waith ac mae'r staff yn cwblhau'r gwiriadau perthnasol angenrheidiol fel y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Dogfen Adnabod yn ogystal â darparu geiradaon addas cyn dechrau. Mae'r staff yn ymgymryd â sesiynau sefydlu manwl ac yn cael Llawlyfr y bydd y rheolwr yn mynd drwyddo â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn eu rolau.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Mae'r dirprwy reolwr wedi ymgymryd â'r hyfforddiant 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' a gall ddarparu'r hyfforddiant diweddaraf ar Godi a Chario. Mae ystafell hyfforddiant ar gael yn y swyddfa lle y cynhelir yr hyfforddiant hwn. Caiff y staff gofal hyfforddiant ychwanegol penodol yn ôl y gofyn. Mae rhai o'r staff wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru a rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni fod y rhai nad ydynt wedi'u cofrestru yng nghanol y broses o wneud hynny. Caiff hyn ei wirio yn yr arolygiad nesaf. Caiff y staff sesiynau goruchwyllo yn rheolaidd a chânt eu harsylwi yn ystod galwadau gofal i gartrefi'r bobl fel rhan o'r broses oruchwyllo. Mae hyn yn gyfle i nodi unrhyw hyfforddiant a/neu gymorth y gallai fod angen arnynt ac yn eu galluogi i fyfyrion ar eu hymarfer.

Gwnaethom edrych ar nifer o bolisiâu allweddol a oedd yn gyfredol ac yn darparu gwybodaeth i'r staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rhoddir Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth i'r bobl wrth iddynt ddechrau cael cymorth.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
16	<p>Nid yw'r darparwr wedi cynnwys yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd wrth adolygu'r cynlluniau personol. Yn ystod yr arolygiad ar 20/07/23, edrychwyd ar dri chynllun gofal personol. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y bobl na'u cynrychiolwyr wedi cymryd rhan yn y broses adolygu. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw a'r rheolwr nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu'r cynlluniau personol yn rheolaidd.</p>	Newydd
73	<p>Nid oedd unrhyw adroddiadau ar gael i ddangos bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi cynnal yr ymweliadau monitro gofynnol. Nid oedd y rheolwr yn ymwybodol o adroddiadau o'r fath.</p>	Cyflawnwyd
36	<p>Mae bylchau yn hyfforddiant y staff, gyda rhai o'r staff naill ai heb gwblhau hyfforddiant, neu nad yw eu hyfforddiant bellach yn gyfredol. Dywedodd perthynas ei fod o'r farn y gallai'r staff, a'r brydiau, fod wedi'u hyfforddi ymhellach cyn cyflawni dyletswyddau gofal. Mae'r matrices hyfforddiant yn dangos nad yw rhai aelodau o'r staff wedi cael sesiynau goruchwyllo yn ddiweddar.</p>	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 01/09/2023